
Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Owen Evans
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	029 2044 6446
<hr/>	
Dyddiad / Date:	01.12.23
Pwnc / Subject:	Aelodaeth o Bwyllgorau Ymchwilio a Phwyllgorau Priodoldeb i Ymarfer Cyngor y Gweithlu Addysg

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000¹ a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

¹ Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Ymateb

Cyflwyniad

Rydym yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig o fewn yr ymgynghoriad hwn ac yn credu y byddant yn helpu sicrhau bod staff o fewn y gweithlu addysg yng Nghymru yn cynnal safonau proffesiynol uchel. Hefyd, bydd y newidiadau hyn yn gwella'r diogelwch yn erbyn pobl anaddas rhag gweithio yn y gweithlu addysgol, neu'n aros ynddo.

Credwn y bydd y newidiadau arfaethedig yn debygol o leihau risg trafodion hirfaith ac unrhyw niwed cysylltiedig. Ni fydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio'n negyddol ar gofrestreion, ar yr amod fod y safbwynt a roddir gan wybodaeth gyd-destunol ac arbenigol am sectorau yn ffurfio rhan o gyfnod sefydlu a hyfforddiant parhaus aelod.

Teimlwn y bydd y newidiadau arfaethedig yn ei gwneud yn haws cynnal trafodion trwy gyfrwng y Gymraeg, gan felly gynyddu cyfleoedd ar gyfer defnyddio'r Gymraeg.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiwygio'r gofynion ar gyfer y Pwyllgorau?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym yn cytuno â'r diwygiadau arfaethedig oherwydd dylent hwyluso'r broses i gynnull pwyllgorau addas, gan felly leihau'r risg o gael gweithdrefnau hirfaith a pharhad unrhyw niwed cysylltiedig.

Gellid cryfhau'r cynnig ymhellach trwy gyflwyno'r gofyniad i wneud ymgais i greu pwyllgorau gyda phobl oddi mewn i'r un categori cofrestreion cyn penodi pobl o gategoriâu eraill. Bydd hyn yn sicrhau bod trafodion yn elwa ar y safbwynt a roddir gan y wybodaeth gyd-destunol ac arbenigol y mae pobl sy'n ymarfer o fewn yr un categori yn meddu arni, ble bynnag y bo modd.

Cwestiwn 2 – Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o effeithiau'r cynnig?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym yn cytuno ag asesiad yr ymgynghoriad o effeithiau'r cynnig ac yn credu na fydd unrhyw effaith niweidiol ar gofrestreion.

Fodd bynnag, mae'r amod gwreiddiol fod y pwyllgor yn cynnwys un person o'r un categori cofrestru wedi'i fwriadu i adlewyrchu pwysigrwydd gwybodaeth gyd-destunol ac arbenigol yr unigolyn hwnnw am y categori dan sylw. Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol ac yn ychwanegu dilysrwydd at y trafodion. Mae dileu'r gofyniad hwn yn cyflwyno risg y gallai'r safbwynt a roddir gan y wybodaeth hon gael ei golli. Felly, dylai CGA roi ystyriaeth ofalus i adolygu natur yr hyfforddiant a'r wybodaeth a ddarperir i aelodau'r pwyllgor yn ystod eu rhaglen sefydlu, ac yn barhaus, i sicrhau nad oes unrhyw golled yn y safbwynt cyd-destunol ac arbenigol hwn yn ystod gweithdrefnau.

Cwestiwn 3 – Ydych chi'n cytuno â'r cynigion ar gyfer diwygiadau amrywiol i Reoliadau 2015?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Newid i enw'r Pwyllgor Priodoleb i Ymarfer (Fitness to Practice Committee)

Rydym yn cytuno bod y newid o *practice* i *practise* yn enw'r pwyllgor yn fân newid ac ni fydd yn effeithio ar waith y CGA na'r pwyllgorau hyn.

Newid i Atodlen 2 Rheoliadau 2015: Materion i'w cofnodi ar y Gofrestr

Mae'r newid i Baragraff 21 Atodlen 2 Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015 yn hanfodol i sicrhau bod y rheoliadau'n cyfeirio at ddeddfwriaeth bresennol ac nid deddfwriaeth wedi'i diddymu. Heb newid o'r fath, ni fydd yn ofynnol i CGA gynnal rhestr o gyfarwyddiadau o dan Adran 167A Deddf Addysg 2002, h.y. cynnal cofrestr o bobl sydd wedi eu gwahardd rhag cymryd rhan mewn rheoli ysgol annibynnol.

Bydd cofrestr fel hon yn gwella diogelu yn erbyn pobl anaddas rhag gweithio yn y gweithlu addysgol. Mae'r ffaith nad oes rhestr o'r fath yn bodoli ar hyn o bryd yn rhoi mwy o bwysau ar wiriadau recriwtio mwy diogel, er enghraifft geirdaon, ac mae'n risg diogelu.

Hefyd, mae Rheoliadau arfaethedig Ysgolion Annibynnol (Gwaharddiad ar Gymryd Rhan mewn Rheoli) 2023 yn hanfodol i ategu'r newidiadau hyn. Heb y ddeddfwriaeth hon, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fod â'r awdurdod i wahardd pobl rhag cymryd rhan mewn rheoli ysgol annibynnol, ond nid y mecanwaith i ddeddfu a gorfodi'r pwerau hyn.

Cwestiwn 4 – Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y diwygiad i'r Pwyllgorau ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?

Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?

Sylwadau ategol

Bydd dileu'r gofyniad i'r unigolyn cofrestredig fod yn yr un categori cofrestreion â'r unigolyn sy'n wynebu'r trafodion yn rhoi mwy o hyblygrwydd i CGA benodi pobl gofrestrdig, a phobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn arbennig.

Bydd pwyllgorau a fydd yn cael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu cael eu cynnull yn gyflymach, gan felly gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer defnyddio'r Gymraeg.

Fodd bynnag, bydd yn bwysig fod siaradwyr Cymraeg sy'n cael eu penodi i bwyllgor y tu hwnt i'w categori cofrestreion a/neu ble nad yw eu harfer broffesiynol trwy gyfrwng y Gymraeg, yn derbyn yr un lefel uchel o gyfnod sefydlu a hyfforddiant parhaus sy'n eu galluogi i ddeall unrhyw fân wahaniaethau cyd-destunol rhwng categorïau cofrestreion.

Cwestiwn 5 – Yn eich barn chi, a ellid ffurfio neu newid y diwygiadau arfaethedig, er mwyn:

- cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu
- liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Sylwadau ategol

Mae'n hanfodol fod dogfennau, a deddfwriaeth, lle bo'n briodol, yn cael eu darparu yn Gymraeg a Saesneg gyda'i gilydd.

Mae'r penderfyniad ynghylch p'un a gaiff pwyllgor ei gynnal trwy gyfrwng y Gymraeg yn nwylo'r unigolyn sy'n destun y trafodion. Nid ydym yn credu y byddai unrhyw fformatio gwahanol i'r diwygiadau hyn yn cael unrhyw ddylanwad ar eu penderfyniad i ofyn bod y trafodion yn cael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cwestiwn 6 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, defnyddiwch y blwch isod i'w nodi:

Mae'r diwygiadau hyn a awgrymir, ynghyd â Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categoriâu Cofrestru ychwanegol) (Cymru) 2023, yn cryfhau'r diogelwch yn erbyn pobl anaddas rhag gweithio yn y gweithlu addysg yng Nghymru, ac aros ynddo.

Mae'r gofyniad newydd i athrawon a gweithwyr cymorth dysgu mewn ystod ehangach o sectorau'r gweithlu addysgol gofrestru gyda CGA, er enghraifft ysgolion annibynnol a cholegau arbenigol annibynnol, yn sicrhau bod staff sy'n gweithio o fewn y sectorau hyn yn ymarfer o dan yr un safonau uchel o ymddygiad proffesiynol â'r rhai sydd wedi'u cofrestru ar hyn o bryd.

Bydd yn cryfhau'r mecanweithiau a'r camau diogelwch sy'n berthnasol ar yr adeg y mae pobl yn symud rhwng cyflogaethau neu sectorau. Er enghraifft, dileu'r pwysau ar eirdaon i nodi pobl anaddas neu pan fydd staff yn symud o'r sectorau annibynnol i'r sectorau a gynhelir.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma:

